

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd ar gyfer Dolwyddelan

Ar y cyd â Chyngor Cymuned Dolwyddelan, rydym yn ysgrifennu gyda'r diweddaraf am y llifogydd yn eich ardal dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn dilyn cwblhau'r Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd, gwnaethom gyflwyno'r canfyddiadau yn ystod digwyddiad galw heibio yn Ysgol Gynradd Dolwyddelan ar 06 Chwefror 2017. Yna ffurfiodd yr Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd y sail i gais cyllid a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel Cam 1 rhaglen darparu mesurau lliniaru llifogydd tri cham. Mae rhagor o wybodaeth am y camau hyn wedi'i hamgáu.

Rydym yn falch o gadarnhau bod ein cais am gyllid wedi'i gymeradwyo ac nawr rydym yn dechrau gwaith i wneud dadansoddiad pellach o'r llifogydd rydych wedi'u profi o bosibl. Bydd y dadansoddiad yn cynnig sawl opsiwn. Cynhelir dadansoddiad cost a budd ar bob opsiwn a nodir a phenderfynir ar un dewis a ffefrir.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyllido 15% o'r gost. Ariennir yr 85% sy'n weddill gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y gwaith hwn yn dod i ben erbyn diwedd Mawrth 2019 a bydd yn nodi datrysiad i'r llifogydd yn yr ardal, yn ogystal ag amcangyfrif o gost.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith i nodi datrysiad yn digwydd y tu ôl i'r llenni, er eich bod yn debygol o weld swyddogion ar y safle dros y 12 mis nesaf.

Unwaith bydd y gwaith wedi ei orffen rydym yn bwriadu cynnal digwyddiad galw heibio cyhoeddus i gyflwyno'r datrysiad arfaethedig.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yng Nghyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i edrych ar fesurau tymor byr i reoli perygl llifogydd i Ddolwyddelan.

1. Mae **Dŵr Cymru** wedi cynnal arolwg o'u holl rwydweithiau carthffosydd yn yr ardal. Mae unrhyw rwystrau wedi'u symud ac mae'r systemau yn rhedeg heb gyfyngiad;
2. Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** wedi cytuno i osod system draenio dŵr wyneb drwy'r bwnd i'r de o Stryd y Bont. Bwriedir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf;
3. Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** wedi glanhau'r holl geunentydd yn yr ardal a byddant yn gwneud hynny eto cyn y gaeaf. Rydym hefyd yn trefnu i'r ollyngfa yn y cae i'r Dwyrain o Stryd yr Eglwys gael ei lanhau. Bwriedir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Awst;
4. Bydd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** yn gosod system telemetreg i fonitro'r cwrs dŵr ar ffordd Tan Rallt. Bydd y system hon yn darparu cysylltiad o bell a